**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gwneud a Gosod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog/y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig yr Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019.

Vaughan Gething AM
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
9 Mai 2019

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 isod drwy osod chwe dyletswydd gyffredin mewn perthynas â'r Gymraeg ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru, hy Contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, Fferyllwyr Cymunedol ac Optometryddion, drwy eu priod delerau cytundeb, contract a/neu wasanaeth gyda Byrddau Iechyd Lleol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan yr adrannau a ganlyn o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") ar gyfer rhagnodi telerau contractau gofal sylfaenol perthnasol/telerau gwasanaeth/cytundebau gyda Byrddau Iechyd Lleol:

- Adran 47(1) a (2) mewn perthynas â chontractau meddygol cyffredinol;
- Adran 61(1) a (3) mewn perthynas â chontractau deintyddol cyffredinol;
- Adran 66(1) a (3) mewn perthynas â chytundebau gwasanaethau deintyddol personol;
- Adran 71(10) ac adran 72(1) mewn perthynas â gwasanaethau offthalmig cyffredinol;
- Adran 80(1) a (2) mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol.

Bydd y 6 dyletswydd gyffredin mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y 5 set o Reoliadau a ganlyn ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol –

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006;
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Y Cefndir

Gwnaeth Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt o dan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ("Rheoliadau 2018") a ddaeth i rym ar 29 Mehefin 2018. Roedd Rheoliadau 2018 yn amlinellu'r safonau ar gyfer cyrff y sector iechyd. O dan Adran 44 o'r Mesur, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiadau cydymffurfio ar 30 Tachwedd 2018 ar gyfer cyrff y sector iechyd, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yn nodi pa safonau yr oedd rhaid iddynt gydymffurfio â hwy o dan Reoliadau 2018. Rhaid i gyrff y sector iechyd gydymffurfio â'r safonau o 30 Mai 2019.

Mae Atodlen 1 o Reoliadau 2018 yn cynnwys Safonau Cyflenwi Gwasanaethau ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â Gofal Sylfaenol sy'n cynnwys –

| | |
|---|---|
| Safon 65 | Pan fyddwch yn gwybod bod darparwr gofal sylfaenol yn fodlon darparu gwasanaeth gofal sylfaenol neu ran o'r gwasanaeth gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid ichi ddynodi a chynnal tudalen ar eich gwefan (yn Gymraeg) sy'n cynnwys yr wybodaeth honno. |
| Safon 66: | Rhaid ichi—<br>(a) darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg i ddarparwr gofal sylfaenol ei ddefnyddio er mwyn ei alluogi i gael cyfieithiadau Cymraeg o arwyddion neu hysbysiadau a arddangosir mewn cysylltiad â'i wasanaeth gofal sylfaenol, a<br>(b) annog y defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gennych yn unol â'r safon hon. |
| Safon 67: | Rhaid ichi—<br>(a) rhoi ar gael i ddarparwr gofal sylfaenol fathodyn iddo ei wisgo neu i'w staff ei wisgo i gyfleu eu bod yn gallu siarad Cymraeg, a<br>(b) hybu i ddarparwr gofal sylfaenol wisgo'r bathodyn. |
| Safon 68: | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi, gwybodaeth neu gynnal digwyddiadau fel y gall darparwr gofal sylfaenol ddatblygu—<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru); a<br>(b) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |

Er mwyn i ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol ymgysylltu â'r safonau cyflenwi gwasanaethau a ddarperir gan y BILlau, penderfynwyd gosod dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol drwy eu telerau contract a thelerau gwasanaeth.

Diben ac Effaith

Diben Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yw diwygio'r 5 set o Reoliadau a restrir uchod i gynnwys y 6 dyletswydd gyffredin mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol –

1. Hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r gwasanaeth(au) y mae'n barod i'w ddarparu/darparu drwy gyfrwng y Gymraeg;
2. Gwneud fersiwn iaith Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar gael i gleifion a/neu aelodau o'r cyhoedd;
3. Arddangos testun ar unrhyw arwydd neu hysbysiad newydd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a ddarperir, yn Gymraeg ac yn Saesneg;
4. Annog gwisgo bathodyn, a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, gan siaradwyr Cymraeg, i gyfleu eu bod yn gallu siarad Cymraeg;
5. Annog y rheini sy'n cyflenwi gwasanaethau i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynd ar gyrsiau a digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn iddynt allu meithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru) a dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau;
6. Annog y rheini sy'n cyflenwi gwasanaethau i bennu beth yw'r dewis iaith Gymraeg neu Saesneg a fynegwyd gan glaf, neu ar ei ran, a chofnodi'r dewis hwnnw.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gyrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, nid yw darparwyr gofal sylfaenol annibynnol wedi bod yn ddarostyngedig i gynlluniau iaith Gymraeg cyn hyn. Mae'r chwe dyletswydd gyffredin sy'n cael eu gosod ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ar lefel felly yr ystyrir ei bod yn briodol ac yn rhesymol. Mae gosod dyletswyddau cyraeddadwy ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn cynnig pwynt cychwyn rhesymol i gyflwyno darpariaeth iaith Gymraeg yn y sector gofal sylfaenol.

Os na fydd y Rheoliadau perthnasol yn cael eu gwneud ni fydd darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. O'r herwydd ni wneir unrhyw gynnydd, neu ychydig iawn yn unig a wneir, i wella a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn gyson ar draws Cymru.

**Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau Safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer y Sector Iechyd rhwng 14 Gorffennaf a 14 Hydref 2016. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys 13 o gwestiynau a osodwyd mewn dogfen profforma

gyda ffurflen ar-lein er hwylustod. Roedd y cwestiynau'n cynnig dewis o atebion cytuno neu anghytuno ac yna'n rhoi lle ar gyfer sylwadau.

Daeth cyfanswm o 88 ymatebion i law, naill ai drwy'r holiadur, a naratif manwl i gyd-fynd â rhai ohonynt, neu drwy lythyr.

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror 2018. Amlinellwyd y ffordd ymlaen ar gyfer gosod y 6 dyletswydd ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn yr ymateb hwnnw.

Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad i'w weld yn https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-02/180227-rheoliadau-safonaur-gymraeg-sector-iechyd-crynodeb-or-ymatebion.pdf

Mae tudalen 11 yn cynnwys yr ymateb mewn perthynas â gofal sylfaenol.

Ymgynghorwyd â chyrff cynrychioliadol darparwyr gofal sylfaenol annibynnol, y cyfeirir atynt isod, mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodir ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ym mis Chwefror 2019.

- Cadeirydd, Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
- Cadeirydd, Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru
- Cyfarwyddwr, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
- Cadeirydd, Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Cadeirydd, Optometreg Cymru

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Nid yw'r Rheoliadau yn gorfodi costau ar y sector cyhoeddus, preifat na gwirfoddol. O'r herwydd, nis ystyrir bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cael unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru na'i phartneriaid o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Er gwybodaeth, mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i'w gweld yn –

http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11429-em/sub-ld11429-em-w.pdf